Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID–19

Gorffennaf 2020



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Crynodeb** | **3** |
| **Lles** | **5** |
| **Cyfathrebu** | **13** |
| **Dysgu ar y safle** | **17** |
| **Dysgu o bell** | **20** |
| **Trefniadau i gefnogi cyfnod pontio disgyblion newydd sy’n ymuno â’r ysgol** | **25** |
| **Dysgu proffesiynol** | **27** |
| **Adeiladu cymunedol** | **28** |
| **Cynllunio ar gyfer dychwelyd i ddysgu ar y safle i’r holl ddysgwyr** | **29** |

# Cyflwyniad

1 Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn sylweddol. Yn y cyd-destun heriol hwn, tarfwyd ar y system addysg ond mae iddi bwysigrwydd canolog o hyd.

2 Mae'r sector annibynnol yn amrywiol iawn. Mae 75 o ysgolion annibynnol yng Nghymru, a 7 o golegau annibynnol arbenigol. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu disgyblion o oedran meithrin i 19 mlwydd oed, ac mae'r colegau'n darparu ar gyfer dysgwyr 16 oed ac yn hŷn.

3 Mae 38 o ysgolion annibynnol prif ffrwd yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu tua 8,500 o ddisgyblion, sef tua 2% o ddisgyblion yng Nghymru. Mae'r ysgolion yn amrywio'n fawr o ran maint, ac maent yn eiddo naill ai i un perchennog neu grŵp.

4 Mae 37 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru yn addysgu disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae llawer o'r ysgolion yn fach, ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant ar gyfer plant sydd ynghlwm â'r ysgolion. Hefyd, mae lleiafrif o'r ysgolion hyn yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n byw mewn cartrefi plant nad ydynt ynghlwm â'r ysgol. Ariennir bron pob un o'r lleoliadau mewn ysgolion arbennig annibynnol gan awdurdodau lleol.

5 Mae colegau annibynnol arbenigol yn addysgu tua 205 o ddysgwyr. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion dysgwyr, gan gynnwys ASA, ACEY ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI). Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl sydd ynghlwm â'r coleg. Ariennir bron pob un o'r lleoliadau mewn colegau annibynnol arbenigol gan Lywodraeth Cymru.

6 Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal cofrestr o ysgolion annibynnol, a sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn ddigonol i fodloni safonau ysgolion annibynnol. Mae llawer o ysgolion annibynnol yn cael cefnogaeth trwy eu haelodaeth o gymdeithasau proffesiynol. Nid oes system gofrestru debyg ar gyfer colegau annibynnol arbenigol eto, ond gan mai Llywodraeth Cymru yw'r corff ariannu, mae'n ceisio sicrwydd ar ansawdd y ddarpariaeth gan Estyn.

7 Yn sgil pandemig COVID-19, bu'n rhaid i berchnogion ysgolion annibynnol benderfynu p'un a oeddent am gau eu hysgolion. Cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob un o'r ysgolion annibynnol i gadarnhau a oedden nhw wedi penderfynu cau. Wedyn, cysylltodd Estyn â'r holl ysgolion a cholegau annibynnol. Bu'r galwadau'n canolbwyntio ar les dysgwyr ac ar gofnodi dysgu gan arweinwyr ysgol ynglŷn â sut roeddent wedi addasu eu darpariaeth.

## Cefndir

8 O'r 82 o ysgolion a cholegau y cysylltwyd â nhw, ymatebodd 78 i'r cais am wybodaeth yn ymwneud â'u hymateb i bandemig COVID-19. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod sgyrsiau dros y ffôn gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr yr ysgolion a'r colegau ac sy'n adlewyrchu sut roeddent yn addasu eu harfer ar yr adeg honno.

9 Mae bron pob ysgol a choleg wedi aros ar agor yn ystod y cyfnod hwn i ddarparu cymorth ar gyfer lles a dysgu dysgwyr naill ai ar y safle, neu drwy ddysgu o bell. Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau arbennig annibynnol wedi parhau i gael dysgwyr sy'n aros yno, ac mae llawer ohonynt wedi parhau i ddarparu addysg ar y safle ar gyfer dysgwyr.

10 Cynhaliwyd yr holl alwadau ffôn cyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ynghylch ailagor ysgolion ac UCDau, a chyn cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cymru ar 10 Mehefin 2020, Diogelu Addysg: canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau addysg (COVID-19) Dolen at y canllawiau.

11 Rydym ni wedi cynnwys cipolygon byr (wedi'u cydlynu yn ôl lliw fel y dangosir isod i ddangos ysgolion annibynnol prif ffrwd, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau annibynnol arbenigol) sy'n dangos arfer ddiddorol er mwyn i ysgolion a cholegau allu ystyried ystod o weithgareddau a dulliau i ddiwallu anghenion eu disgyblion yn ystod y cyfnod heriol hwn. Er bod y cipolygon yn ddienw, rydym ni wedi cynnwys disgrifiad bras o gyd-destun pob darpariaeth. Efallai na fyddant bob amser yn berthnasol ar draws lleoliadau eraill oherwydd natur bwrpasol llawer o'r darparwyr.

**Ysgolion annibynnol prif ffrwd**

**Ysgolion arbennig annibynnol**

**Colegau annibynnol arbenigol**

# Crynodeb

## Lles

12 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn adrodd eu bod wedi cynnal cysylltiad rheolaidd â'u dysgwyr. Mewn ysgolion arbennig sy'n addysgu disgyblion dydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i gefnogi lles eu disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn cysylltu â disgyblion a'u teuluoedd yn rheolaidd, naill ai trwy alwadau ffôn rheolaidd, cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein neu ymweliadau â chartref y teulu.

13 Mae bron pob un o'r ysgolion prif ffrwd yn dweud eu bod yn cynnal cysylltiad rheolaidd â'u disgyblion. Mae arweinwyr yn siarad am 'sicrhau bod pob disgybl yn weladwy' yn yr amgylchiadau unigryw hyn.

14 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn dweud eu bod wedi gwneud addasiadau i'w harferion gwaith ar y safle i flaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr.

15 Mae disgyblion a staff wedi cael cyngor ac arweiniad, yn enwedig o ran atgyfnerthu diogelwch ar-lein. Mae arweinwyr yn dweud eu bod wedi rhannu protocolau clir sefydledig ar sut i gyfathrebu'n ddiogel â staff a disgyblion, fel ei gilydd.

16 Bron ym mhob ysgol a choleg, rhoddir ystyriaeth gynyddol i effaith y systemau a'r arferion addysgu presennol ar les staff a dysgwyr.

## Cyfathrebu

17 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn adrodd eu bod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd neu'u gofalwyr yn rheolaidd.

18 Mae bron pob un o'r ysgolion yn deall bod angen cyfathrebu'n glir â staff, naill ai trwy'r e-bost neu drwy gyfarfodydd ar-lein. Mae amlder y cyfarfodydd a nifer y dogfennau arweiniad neu'r dogfennau gwybodaeth sy'n cael eu llunio wedi amrywio rhwng darparwyr a thros gyfnod.

19 Mae llawer o ysgolion prif ffrwd yn disgrifio sut y maent wedi cynnal ysbryd cymunedol trwy wasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau tŷ, heriau hwyliog ar gyfer disgyblion a pharhad y 'gwobrau wythnosol'.

20 Mae ychydig o ysgolion sydd naill ai'n rhan o sefydliad mwy neu sydd â chysylltiadau personol wedi cael cyngor ac arweiniad gan arweinwyr ysgol o gwmpas y byd. Mae'r ysgolion tramor hyn, a oedd eisoes yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysgu disgyblion yn ystod y pandemig, yn cynnig cyngor buddiol.

## Dysgu ar y safle ac o bell

21 Mae bron pob ysgol a choleg yn dweud eu bod wedi gwneud trefniadau i sicrhau parhad mewn dysgu ers cau ysgolion yn gyffredinol yng Nghymru.

22 Mae ysgolion prif ffrwd yn adrodd eu bod wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau dysgu, yn dibynnu ar faint a phroffil oedran yr ysgol. Mae arweinwyr yn mynegi'r farn fod angen iddynt fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion staff a disgyblion fel ei gilydd.

23 Mae ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig sy'n addysgu disgyblion dydd, neu gyfuniad o ddisgyblion dydd a disgyblion preswyl, yn disgrifio sut maent wedi datblygu strategaethau sy'n diwallu gwahanol amgylchiadau'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Er y gallai hyn gynnwys cyflwyno gwersi neu rannu adnoddau trwy blatfformau ar-lein, nid yw hyn bob amser yn ymarferol oherwydd yr heriau y mae'r disgyblion hyn yn eu hwynebu yn eu dysgu neu'u hamgylchiadau teuluol. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn hwyluso dysgu o bell ar gyfer y disgyblion hyn trwy ddanfon copïau caled o becynnau gwaith neu weithgarwch i gartref y teulu sydd naill ai'n disodli gweithgareddau ar-lein wedi'u cynllunio, neu'n ychwanegu atynt.

24 Arhosodd lleiafrif o ysgolion prif ffrwd ar agor i ddarparu addysg ar gyfer plant gweithwyr allweddol a oedd ar y gofrestr yn yr ysgol. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar y galw am y gwasanaeth hwn ym mhob lleoliad.

### Pontio

25 Mae llawer o ddarparwyr addysg arbennig yn wynebu heriau wrth hwyluso prosesau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â'r ysgol neu'r coleg, yn ogystal ag ar gyfer y rhai sy'n paratoi i adael.

26 Pan fydd ysgolion ynghlwm â chartrefi preswyl, mae gweithdrefnau ymsefydlu i'r ysgol, yn ôl yr arweinwyr, wedi digwydd yn unol â'r arfer, ar ôl i'r dysgwr setlo yn y cartref i ddechrau.

27 Mewn ysgolion prif ffrwd, mae arweinwyr yn ymwybodol na fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn benodol wedi profi'r trefniadau pontio arferol.

### Dysgu proffesiynol

28 Dywed llawer o arweinwyr fod pob un o'r staff wedi gwella eu gallu i ddefnyddio TGCh a phlatfformau ar-lein yn sylweddol i gefnogi dysgu.

29 Mae llawer o ddarparwyr yn adrodd eu wedi parhau i ddarparu datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn ystod y cyfnod hwn trwy gynnig hyfforddiant ar-lein. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r amser cynyddol sydd ar gael i ddatblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff sy'n cysylltu â blaenoriaethau a nodwyd yn y gorffennol i'w datblygu, fel datblygu'r cwricwlwm neu ddysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu (CCD).

### Cynllunio ar gyfer dychwelyd i ddysgu ar y safle ar gyfer yr holl ddysgwyr

30 Mae bron pob ysgol a choleg yn ystyried yn ofalus beth mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd.

31 Mae cyfathrebu â rhieni a sicrhau hyder rhieni ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol yn allweddol.

32 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion a cholegau wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod clo, er bod hynny ar gyfer llai o ddisgyblion. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i arweinwyr ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o dan y cyfyngiadau presennol, a'r hyn y mae angen iddynt ei fireinio neu'i addasu er mwyn i ddisgyblion allu dychwelyd i'r ysgol yn llawn.

33 Pan fu canlyniadau cadarnhaol yn sgil eu harfer bresennol, er enghraifft defnyddio TGCh i gefnogi dysgu neu fanteision caniatáu i staff weithio o gartref, mae darparwyr yn ystyried sut gellir ymgorffori'r rhain yn eu harfer yn y dyfodol, a chadw'r manteision hyn.

## Lles

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harferion

34 Mae bron pob ysgol a choleg yn dweud eu bod wedi cynnal cysylltiad rheolaidd â'u dysgwyr. Mae dysgwyr yn siarad am 'sicrhau bod pob disgybl yn weladwy' yn yr amgylchiadau unigryw hyn.

35 Mae ysgolion a cholegau yn adrodd eu bod wedi gwneud addasiadau i'w harferion gwaith ar y safle i flaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr. Maent yn ystyried y canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth roi mesurau ar waith i gefnogi iechyd a diogelwch dysgwyr a staff ac atal heintiau rhag lledaenu. Bu ffocws ar gynnal asesiadau risg. Mewn llawer o achosion, mae darparwyr wedi aildrefnu beth maen nhw'n ei addysgu, a sut, i sicrhau bod dysgwyr yn aros yn ddiogel a bod profiadau dysgu yn blaenoriaethu lles corfforol ac emosiynol dysgwyr.

36 Mae llawer o ysgolion annibynnol prif ffrwd yn defnyddio platfformau dysgu ar-lein ar gyfer cyfarfodydd grwpiau tiwtor lle mae staff yn canolbwyntio ar les disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn dweud eu bod yn mynd i'r afael â 'diffyg presenoldeb' a 'diffyg gwaith' hefyd.

37 Ym mhob ysgol a choleg arbennig annibynnol sy'n addysgu dysgwyr dydd, mae arweinwyr wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i gefnogi lles eu dysgwyr. Yn benodol, maen nhw dweud eu bod wedi cynnal cysylltiad â dysgwyr, trwy alwadau ffôn rheolaidd, cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein neu ymweliadau â chartref y teulu. Mae'r cysylltiad rheolaidd hwn yn galluogi arweinwyr i ymateb lle maent yn nodi pryderon penodol, naill ai drwy ddarparu cwnsela neu gymorth therapiwtig arall, neu drwy gyfeirio at asiantaethau diogelu perthnasol.

38 Dywed llawer o ysgolion a cholegau arbenigol fod timau amlddisgyblaethol a staff therapiwtig yn parhau i gyfarfod ar-lein i adolygu a diweddaru cynlluniau a strategaethau cymorth dysgwyr. Maent yn creu adnoddau i gefnogi lles dysgwyr, a gwybodaeth am ddysgu a strategaethau dysgu sydd fel arfer yn cael eu rhannu â staff addysgu a staff cymorth yn bennaf.

39 Bron ym mhob ysgol a choleg, mae ymwybyddiaeth gynyddol o effaith y systemau a'r arferion addysgu presennol ar les staff a dysgwyr, er enghraifft o ganlyniad i'r symud at ddysgu ar-lein.

**Dangosa i mi sut rwyt ti'n teimlo'r bore 'ma**

Mewn un ysgol gynradd annibynnol prif ffrwd, mae athrawon yn 'profi pwls' eu disgyblion trwy ofyn iddyn nhw roi rhif o 1-10 i ddangos sut maen nhw'n teimlo. Wedyn, eir i'r afael â phryderon gyda theuluoedd trwy'r athro dosbarth, y pennaeth neu gwnselydd ysgol, yn ôl yr angen.

**Sefydlu protocol ar gyfer gwersi fideo gynadledda**

Mewn ysgol uwchradd annibynnol prif ffrwd fawr, un o'r tasgau cynharaf oedd creu protocol ar gyfer gwersi fideo gynadledda, a oedd yn cadw staff a disgyblion yn ddiogel wrth gynnal sesiynau. Diwygiwyd y dull hwn yn ystod gwyliau'r Pasg i gynnwys y gofyniad fod sesiynau'n cael eu recordio, oni bai eu bod nhw ar gyfer cwnsela. Defnyddir platfform ar-lein ar gyfer y sesiynau hyn, sy'n golygu eu bod yn cael eu recordio fel mater o drefn, a'u cadw mewn ardal adnoddau, gan roi cyfle i ddisgyblion nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiwn fyw ei chlywed yn ddiweddarach.



Ysgrifennwyd atodiad i'r polisi diogelu, ac anfonwyd dogfennau ar gyfer rhieni a disgyblion ynglŷn â diogelwch ar-lein allan a'u rhoi ar yr adran dysgu ar-lein ar wefan yr ysgol.

I gynnal cysylltiad bugeiliol rheolaidd â disgyblion, cytunodd tiwtoriaid a meistri tai / penaethiaid blwyddyn i gynnal cyfnodau tiwtor ddwywaith yr wythnos, a chyfarfodydd tai / penaethiaid blwyddyn bob wythnos, o leiaf. Cynhelir y rhain gan ddefnyddio cyfuniad o fideo gynadledda a sesiynau

sgwrsio byw. Darparwyd deunyddiau amrywiol, gan gynnwys adnoddau thinkuknow ar e-ddiogelwch, i diwtoriaid i'w helpu i gynnal y sesiynau hyn.

Dechreuodd yr ysgol system gyfeillio ym mhob grŵp tiwtor, lle mae disgyblion yn gwirio lles ei gilydd yn rheolaidd, a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol am hyn gan rieni. Mewn un achos, helpodd hyn yr ysgol i nodi disgybl a oedd yn cael trafferthion yn sgil hwyliau isel, a threfnu cwnsela ar gyfer y disgybl hwnnw.

Neilltuwyd grŵp o fentoriaid cyfoedion Blwyddyn 12 yn rhagweithiol i gefnogi disgyblion preswyl ar ddechrau'r cyfnod clo, i roi cymorth ar-lein ychwanegol iddyn nhw.

Mae'r ysgol wedi sefydlu taenlen ar gyfer monitro disgyblion sy'n destun pryder. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys manylion am bryderon bugeiliol ac academaidd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae athrawon yn trosglwyddo pryderon i diwtoriaid, sy'n eu coladu ac wedyn yn mynd i'r afael â nhw gyda theuluoedd, gan roi copi i'r dirprwy bennaeth, er mwyn iddynt allu diweddaru'r daenlen a monitro'r sefyllfa gyffredinol. Pan fydd problemau parhaus, caiff camau gweithredu eu dwysáu trwy feistri tai a'r dirprwy bennaeth.

Mae cwnselwyr ysgol yn gwneud eu gwaith cwnsela trwy fideo gynadledda. At ei gilydd, bu gostyngiad yn y galw am gwnsela; mae'n ymddangos bod rhai disgyblion wedi setlo'n fwy na phan fyddan nhw yn yr ysgol, er bod nifer fach o ddisgyblion sydd wedi mynd yn fwy pryderus.

40 Mewn ychydig o ysgolion, gall pob aelod o staff fanteisio ar raglen cymorth i gyflogeion. Roedd arweinwyr o'r farn fod hyn wedi cael ei werthfawrogi'n fawr gan staff sydd wedi gallu elwa ar gymorth cyfrinachol ar gyfer amrywiaeth o faterion.

**Dull strategol o gefnogi iechyd a lles staff a disgyblion**

Mae ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, sydd â disgyblion dydd a disgyblion preswyl fel ei gilydd, wedi defnyddio dull strategol o sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion sy'n mynychu bob dydd ar hyn o bryd, ac o gynllunio i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod gan staff gyfarpar diogelu personol (PPE). Cymerir tymheredd pob un o'r staff a'r disgyblion sy'n mynychu bob dydd wedi iddynt gyrraedd, ac os bydd eu tymheredd yn uwch na 37.8, gofynnir iddyn nhw fynd adref a chael prawf ar gyfer COVID-19 cyn dychwelyd i'r ysgol. Ni fu unrhyw broblemau o ran cael y profion trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae ychydig o staff wedi gwneud hynny. Mae nyrs yr ysgol wedi cynnal asesiad risg manwl ar gyfer yr holl ddisgyblion, sy'n cynnwys y mesurau y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Mae'r ysgol yn ystyriol iawn o'r angen i rieni fod yn hyderus y bydd eu plentyn yn ddiogel pan fydd yn dychwelyd yno.

**Adolygu'r defnydd o ofod**

Mae ysgol, sy'n darparu ar gyfer disgyblion sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni sydd ynghlwm â'r ysgol, wedi cwblhau asesiadau risg sydd wedi galluogi safle'r ysgol i aros ar agor trwy gydol y cyfnod hwn. Mae arweinwyr wedi adolygu'r defnydd o ofod ac wedi gwneud defnydd cynyddol o dir yr ysgol i alluogi pellter cymdeithasol ac ymestyn cyfleoedd dysgu. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod cyfarpar diogelu personol wedi bod ar gael yn ôl yr angen, ac wedi adolygu lefelau staffio. Mae hyn wedi galluogi pob un o'r disgyblion sy'n byw yn y cartrefi i barhau i fynychu'r ysgol, gan gynnwys y rhai sydd fel arfer yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae'r disgyblion hyn yn cwblhau'r dysgu a osodir gan yr ysgol prif ffrwd gyda chymorth gan athrawon yn yr ysgol.

**Defnyddio gwefan yr ysgol i ddarparu arweiniad a chymorth ar gyfer rhieni a gofalwyr**

Mae ychydig o ysgolion arbennig annibynnol wedi defnyddio eu gwefannau i ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae un ysgol, sy'n darparu lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl ar gyfer disgyblion ag AECY ac ASA, wedi defnyddio'i gwefan i ddarparu arweiniad cynhwysfawr i rieni a gofalwyr ar draws ystod o destunau i'w galluogi i gefnogi dysgu a lles eu plentyn yn well gartref. Mae'r testunau a gwmpaswyd yn cynnwys:

- Manteision sicrhau bod gan blant strwythur diffiniedig a threfn reolaidd i'w diwrnod
- Ffynonellau gwybodaeth sy'n hawdd eu darllen am COVID-19 i helpu plant ag anawsterau dysgu i ddeall y sefyllfa
- Cynghorion i helpu teuluoedd i gynnal lles personol yn ystod y cyfnod hwn
- Gweithgareddau dysgu a chwarae synhwyraidd
- Cymorth ymarferol i helpu rheoli ymddygiad heriol

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo rhieni a gofalwyr i barhau â'r dulliau effeithiol a ddefnyddir gan yr ysgol.

**Rheoli gorbryderon disgyblion**

Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau preswyl a dydd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac ASA. Mae staff ysgolion a chartrefi gofal yn gweithio'n agos gyda'r tîm therapi ar y safle i ddarparu dull integredig i ddiwallu anghenion unigol disgyblion. Mae hyn wedi parhau trwy gydol y cyfnod clo, ac mae staff therapi wedi cefnogi staff gofal a staff ysgol i ddarparu profiadau i gefnogi lles disgyblion. Maent wedi datblygu cyfleoedd chwarae rôl i ddisgyblion ddeall sut i olchi eu dwylo'n gywir ac yn rheolaidd, ac yn defnyddio storïau cymdeithasol i helpu disgyblion i ddeall newidiadau yn eu harferion. Mae'r dull cydweithredol hwn yn darparu dulliau ymarferol ac ystyrlon ar gyfer disgyblion i reoli eu gorbryderon a deall y sefyllfa bresennol yn llawnach.

### Blaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr

Mae coleg, sy'n darparu lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl i ddysgwyr ag anableddau dysgu ac awtistiaeth, wedi aildrefnu ei amserlen i flaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr, a lleihau risg croes-halogi.  Mae arweinwyr wedi aildrefnu grwpiau addysgu fel bod dysgwyr yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd mewn grwpiau yn seiliedig ar eu tŷ preswyl, gyda dysgwyr dydd yn cael eu haddysgu ar wahân.  Er mwynhau lleihau risg haint, mae'r coleg wedi atal opsiynau oddi ar y safle yn ystod y prynhawn, ac mae cynllunio tiwtoriaid yn canolbwyntio ar gynllunio gweithgareddau i fodloni targedau ar gynlluniau addysg unigol (CAUau) dysgwyr, neu gynlluniau addysg, iechyd a gofal (CAIGau), ac nid ar ennill cymwysterau.

Mae'r coleg wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i fonitro iechyd staff.  Caiff profion tymheredd ddwywaith y dydd eu goruchwylio gan uwch staff, a darperir cyfarpar diogelu personol i staff yn ôl yr angen.

### Mae cartrefi plant wedi dod yn lleoliadau cymdeithasol ac addysgol ar gyfer disgyblion

Mae'r ysgol arbennig annibynnol hon yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni.  Yn ystod y cyfnod hwn, yn dilyn cyngor gan y cwmni, mae disgyblion wedi aros yn eu cartrefi plant er mwyn osgoi risg lledaenu heintiau.  Mae'r cartrefi wedi dod yn lleoliadau cymdeithasol ac addysgol ar gyfer disgyblion.  Mae staff wedi'u henwi ynghlwm â phob cartref i ddarparu cysondeb a chyflwyno dull dysgu cyfunol.  Mae'r ysgol yn defnyddio platfform ar-lein, yn ogystal â gweithgareddau ar y safle gan staff.  Er enghraifft, mae'r tiwtor chwaraeon wedi gallu cyflwyno ystod o weithgareddau yn ardaloedd allanol y cartrefi plant, ac mae disgyblion TGAU wedi cwblhau eu dysgu.

### Defnyddio'r amgylchedd awyr agored i hyrwyddo dysgu diogel

Mae'r coleg hwn yn goleg preswyl arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys ASA, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ac ACEY.  Mae'r coleg wedi'i leoli ar fferm ac mae'n cynnig cwricwlwm sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau bywyd go iawn.  Mae'r cyd-destun awyr agored yn golygu bod y coleg wedi ei chael yn gymharol syml addasu canllawiau cadw pellter cymdeithasol o fewn ei fodel cwricwlwm presennol, ac mae wedi bod yn darparu llai o raglen ar gyfer hyd at 8 dysgwr bob yn ail ddiwrnod.  Cynhaliwyd asesiad risg unigol o'r ddarpariaeth a'r trefniadau ar gyfer pob dysgwr ar y cyd â'r awdurdod lleoli, rhieni a'r person ifanc.

Mae'r coleg wedi elwa ar lawer o gymorth, yn fewnol o fewn y sefydliad ehangach, a chan asiantaethau allanol fel Gofal Cymdeithasol Cymru yn ogystal.  Mae'r sefydliad olaf yn darparu arweiniad ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal, y mae'r coleg wedi ei addasu i lywio'i drefniadau ar gyfer addysg.

**Cynnal arferion cyfarwydd i leihau gorbryderon**

Mae'r ysgol, sy'n darparu addysg a therapi ar gyfer disgyblion sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu ei safle, wedi aros ar agor ar gyfer ei holl ddisgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Mae parhau ag arferion yr ysgol wedi galluogi disgyblion sy'n agored i niwed i gynnal ymdeimlad o normalrwydd a lleihau gorbryderon. Mae addysgu a dysgu â ffocws yn darparu cyfleoedd defnyddiol i drafod materion a phryderon ynghylch COVID-19 a datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd hylendid personol i leihau risgiau. Mae'r ysgol yn cyfarfod fel cymuned bob dydd i archwilio gorbryderon disgyblion a'u cynorthwyo i ddeall y rhesymau am y newidiadau hyn i'w bywydau bob dydd yn ystod y cyfnod hwn.



Mae staff addysg wedi blaenoriaethu parhad amserlenni unigoledig disgyblion, gan gynnal strwythur arferion cyfarwydd, sydd o fudd i les disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal lefelau uchel o oruchwyliaeth i sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu gan aelodau staff cyfarwydd sy'n deall y risgiau ac yn ymateb i anghenion disgyblion yn unol â hynny. Mae'r holl ddysgu oddi ar y safle, ymweliadau addysgol a phrofiad gwaith wedi dod i ben, ond mae'r cwricwlwm yn parhau i fod yr un fath, ar y cyfan.

Caiff tymheredd pob un o'r disgyblion a'r staff ei wirio cyn iddyn nhw ddod i mewn i amgylchedd yr ysgol. Mae gan ddisgyblion becynnau personol o offer ysgrifennu wedi'u labelu â'u henw, ac nid yw'r rhain yn gadael safle'r ysgol er mwyn lleihau rhannu adnoddau. Mae'r ysgol yn defnyddio platfformau ar-lein ar gyfer cyfarfodydd i leihau trosglwyddiad y feirws. Mae wedi rhoi gweithdrefnau hylendid trylwyr ar waith, sy'n sicrhau bod deunyddiau, arwynebau, offer ac amgylchedd yr ysgol gyfan yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae posteri'n atgoffa pawb i olchi eu dwylo'n rheolaidd, ac mae peiriannau gel alcohol wedi'u lleoli mewn mannau amrywiol o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw cyfartal i les emosiynol y tîm staff trwy sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda staff unigol, cyfarfodydd boreol, a chylchlythyrau. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cyfleu arweiniad a newidiadau allweddol mewn arferion gwaith yn brydlon. Mae oriau gweithio hyblyg a chyfleoedd i weithio o gartref ar gael, pan fydd modd, yn enwedig lle mae staff wedi cael problemau personol o ran gofal plant â'u plant eu hunain.

**Cryfhau gwaith ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion**

Mae ysgol arbennig annibynnol sy'n cynnig lleoliadau preswyl a lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac ASA wedi defnyddio'r cyfle hwn i gryfhau ei gwaith ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, gyda ffocws penodol ar fwyta'n iach ac aros yn ddiogel. Yn aml, mae disgyblion yn anhyblyg o ran eu ffordd o feddwl a'u hymddygiadau, ac yn dibynnu'n helaeth ar arferion a strwythurau i reoli eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a datblygu strategaethau i ymdopi â sefyllfaoedd y maent yn eu hamgyffred yn heriol. Mae staff wedi ymateb yn greadigol i reoli anghenion disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae disgybl ag obsesiwn â bwyta bwyd o dŷ bwyta penodol ar y stryd fawr yn unig wedi cael cymorth trwy'r cyfnod hwn gan staff sy'n cyflwyno bwydydd newydd i'r disgybl hwn gan ddefnyddio cynwysyddion gwag o'r tŷ bwyta hwn i ymestyn ei ddewisiadau bwyd.

**Creu platfform cyfryngau cymdeithasol er mwyn i ddisgyblion a staff gyfathrebu**

Mae'r ysgol ar gyfer disgyblion dydd sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, wedi creu platfform cyfryngau cymdeithasol er mwyn i ddisgyblion a staff gyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfnod tra bydd yr ysgol ar gau. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn monitro hyn yn ofalus i sicrhau defnydd diogel. Mae'r fforwm hwn wedi galluogi disgyblion i fynegi eu hunain mewn ffordd gadarnhaol, ac annog a chefnogi ei gilydd.

Hefyd, mae'r ysgol wedi creu cyfleoedd i gyngor a chwnsela wyneb yn wyneb barhau. Trwy weithio'n agos â'r tîm iechyd pobl ifanc lleol, maen nhw wedi gallu cyflwyno pecynnau lles a hwyluso sesiynau penodol am les. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ar safle'r ysgol yn ôl yr angen, ac mae staff yn cadw pellter cymdeithasol yn ofalus.

**Galwadau ffôn dyddiol i bob teulu**

Mae'r ysgol, sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, wedi ffonio pob teulu bob dydd er mwyn cynnig cymorth a gwirio lles ar yr aelwyd. Bob dydd Mawrth, mae aelod o staff yn cyflwyno pecyn bwyd a chopïau caled o waith ysgol i bob tŷ. Caiff y gwaith hwn ei farcio a'i ddychwelyd yr wythnos ganlynol. Mae hyn wedi caniatáu cysylltiad wyneb yn wyneb a chysylltiad o bellter cymdeithasol, ac wedi rhoi cyfle i rieni rannu eu profiadau gyda'u plentyn yn bresennol.

**Staff ysgol yn ymweld â chartref pob disgybl yn wythnosol**

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac ASA. Mae staff yr ysgol yn ymweld â chartref pob disgybl yn wythnosol. Maen nhw'n mynd â chopïau caled o dasgau

dysgu, llyfrau ysgrifennu, a deunyddiau coginio i deuluoedd, ac yn casglu gwaith a gwblhawyd. Mae staff yn dilyn protocolau ar gyfer ymweliadau cartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol, ac yn cadw cofnod o'r holl ymweliadau cartref a'r trafodaethau gyda rhieni, gofalwyr a disgyblion ar ei system gwybodaeth reoli. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi dechrau tîm diogelu symudol i alluogi staff i ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon am ddiogelu a nodwyd. Mae'r tîm yn adolygu asesiadau risg a chynlluniau ymyrraeth yr holl ddisgyblion yn rheolaidd i flaenoriaethu ymweliadau mwy rheolaidd â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r cysylltiad rheolaidd hwn â theuluoedd yn helpu sefydlu perthnasoedd cryf gyda rhieni, sydd, hyd yma, wedi bod yn heriol i'r ysgol oherwydd lleoliad yr ysgol a'i threfniadau cludiant. Yn ei dro, mae'r graddau uchel o ymgysylltu rhwng y rhieni a'r ysgol yn golygu bod eu plant yn ymgymryd â'r gwaith a osodir.

## Heriau a nodwyd gan arweinwyr ysgol

41 Mewn llawer o achosion, mae'r addasiadau hyn wedi bod yn bosibl oherwydd bod llai o ddysgwyr ar y safle ar unrhyw adeg benodol, yn enwedig ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n darparu ar gyfer dysgwyr dydd. Yn yr ysgolion a'r colegau hyn, mae mwyafrif y dysgwyr yn cael addysg a chymorth o bell. Mae gan arweinwyr bryderon am sut y gellid rhoi'r mesurau hyn ar waith ar raddfa fwy o ystyried yr arweiniad presennol ar gadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau.

42 Mae llawer o arweinwyr yn adrodd am heriau wrth ddarparu therapi lle mae angen cysylltiad wyneb yn wyneb ar gyfer ymyriadau therapiwtig, naill ai i asesu anghenion dysgwyr, neu i ddarparu therapi parhaus. Gall hyn fod naill ai am ei bod yn rhy beryglus i therapyddion fynychu'r cartref, neu oherwydd bod dysgwyr yn gwrthod mynd ar-lein, neu oherwydd nad yw natur yr ymyrraeth ei hun yn addas ar gyfer cyflwyno ar-lein.

43 Nid yw ychydig o ddysgwyr a'u teuluoedd yn ymateb i ymdrechion yr ysgol neu'r coleg i gadw mewn cysylltiad.

44 Siaradodd llawer o ddysgwyr am eu pryderon nad yw dysgwyr sy'n agored i niwed yn profi'r amrywiaeth o gysylltiadau cymdeithasol sydd eu hangen arnynt, ac y bydd y cyfnod clo wedi bod yn niweidiol i les corfforol ac emosiynol dysgwyr. Yn ychwanegol, mae llawer o arweinwyr yn mynegi pryderon am yr heriau y bydd dysgwyr yn eu hwynebu wrth iddynt ailintegreiddio i'r ysgol neu'r coleg o ran addasu yn unol ag arferion a disgwyliadau'r ysgol, yn enwedig lle mae ganddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae hyn yn debygol o waethygu'r effaith negyddol ar eu dysgu a'u cynnydd ymhellach, gan y bydd angen i ysgolion a cholegau ganolbwyntio ar y materion hyn yn gyntaf, yn ogystal â phrosesu eu profiadau yn ystod y cyfnod clo, cyn iddynt allu dechrau canolbwyntio eto ar ddysgu academaidd.

## Cyfathrebu

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

45 Mae pob ysgol a choleg yn deall bod angen cyfathrebu'n glir â staff. Mae arweinwyr yn adrodd eu bod yn gwneud hyn naill ai drwy gysylltiad uniongyrchol, negeseuon e-bost neu gyfarfodydd ar-lein. Mae amlder y cyfarfodydd yn amrywio rhwng darparwyr a thros gyfnod.

46 Mewn ysgolion annibynnol prif ffrwd, dechreuwyd cyfathrebu â rhieni gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth yn bennaf. Yn fwy diweddar, mae arweinwyr wedi cynnal arolygon rhieni i asesu lefelau boddhad â threfniadau a lefelau cymorth presennol am wahanol gynigion ar gyfer ffyrdd ymlaen.

47 Mae ychydig o ysgolion annibynnol prif ffrwd sydd naill ai'n rhan o sefydliad mwy neu sydd â chysylltiadau personol wedi cael cyngor ac arweiniad gan arweinwyr ysgol o gwmpas y byd. Roedd yr ysgolion hyn dramor eisoes yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysgu disgyblion yn ystod y pandemig, a gallent gynnig cyngor buddiol.

48 Dywed sawl ysgol annibynnol prif ffrwd fod ymdopi â'r pandemig wedi dod â chymuned yr ysgol yn agosach at ei gilydd. Mae llawer o ysgolion o'r farn ei bod yn bwysig cynnal cysylltiad anffurfiol â staff trwy nosweithiau cwis, er enghraifft.

49 Mae bron pob un o'r ysgolion arbennig annibynnol a'r colegau arbenigol yn disgrifio sut y maent wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd neu'u gofalwyr yn rheolaidd. Pan fydd ysgolion a cholegau ynghlwm â chartrefi plant neu gartrefi preswyl, mae'r cysylltiad agos rhwng athrawon a staff y cartrefi gofal oherwydd y model gweithio hwn wedi cael ei gryfhau ymhellach gan addasiadau i'r cwricwlwm, a newidiadau i fodelau staffio a achoswyd gan yr angen i leihau risg croes-halogi.

50 Mae ysgolion a cholegau arbenigol sy'n addysgu dysgwyr dydd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynnal cysylltiad â rhieni, gan gynnwys galwadau ffôn rheolaidd, sgyrsiau dros giât yr ardd, a chyfarfodydd ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywed arweinwyr fod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr.

51 Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr yn adrodd bod y cysylltiad estynedig â theuluoedd yn ganlyniad cadarnhaol ac anfwriadol y cyfnod clo. Yn nodweddiadol, mae llawer o ddisgyblion sydd â lleoliadau dydd mewn ysgolion arbennig annibynnol yn dod i'r ysgol mewn tacsi, ac o ganlyniad, nid yw rhieni a gofalwyr yn cael cysylltiad rheolaidd â'r ysgol. Mae arweinwyr yn ystyried yn ofalus sut gallant gynnal y cysylltiad estynedig hwn pan fydd trefniadau cludiant arferol yn ailddechrau.

52 Dywed y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau eu bod wedi cael cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleoli ers dechrau'r cyfnod clo i'w cynghori a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y mesurau maen nhw wedi eu rhoi ar waith i gefnogi parhad mewn dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cryfhau eu defnydd o blatfformau ar-lein i gynnal cyfarfodydd rheolaidd, yn ogystal â chyfathrebu â

rhanddeiliaid allanol.  Mae lleiafrif o'r darparwyr y cysylltwyd â nhw wedi parhau i gynnal cyfarfodydd ar y calendr i adolygu cynnydd disgyblion, gan gynnwys adolygiadau statudol o ddatganiadau neu gynlluniau addysg, iechyd a gofal.

**Datblygu rhaglen dysgu o bell y cwricwlwm**

Roedd un ysgol annibynnol prif ffrwd pob oed, sy'n rhan o grŵp rhyngwladol, yn gallu defnyddio gwybodaeth a phrofiad ysgolion eraill a oedd wedi profi'r pandemig.  Lluniodd arweinwyr raglen fanwl dysgu o bell ar gyfer y cwricwlwm a rannwyd â'r holl rieni.

Roedd y llyfryn hwn yn cynnwys neges gan y pennaeth, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol ynghylch:

**Systemau academaidd**

- Strwythur wythnos dysgu o bell
- Amserlenni ar gyfer pob cyfnod o'r ysgol
- Gwybodaeth am y platfformau technoleg a ddefnyddir
- Arweiniad yn ymwneud ag amser sgrin
- Disgwyliadau ar gyfer cofrestru, marcio, asesu a gwaith cartref

**Systemau bugeiliol**

- Systemau gwobrwyo
- Cwnselydd yr ysgol
- Y cwricwlwm ehangach

**Gweithdrefnau cyfathrebu**

- Sut i gadw mewn cysylltiad
- Disgwyliadau – o'r ysgol, disgyblion a theuluoedd
- Arweiniad ar ddiogelu ar gyfer gweithio ar-lein

**Creu cylchlythyr wythnosol addysgiadol ar gyfer staff, disgyblion a rhieni**

Mae ysgol breswyl pob oed yn llunio cylchlythyr wythnosol difyr ac addysgiadol ar gyfer staff, disgyblion a rhieni.  Mae'r cylchlythyr hwn yn hyrwyddo a chryfhau ysbryd cymunedol yr ysgol, ac yn cynnwys ystod eang o wybodaeth ac arweiniad perthnasol a buddiol, er enghraifft i gynorthwyo rhieni â chefnogi dysgu eu plant.  Ymhlith yr eitemau sy'n cael eu cynnwys, mae enghreifftiau o waith a gwblhawyd gan ddisgyblion uwchradd a chynradd, arweiniad ar gyfer disgyblion chweched dosbarth mewn o ran cael eu derbyn i brifysgol, adroddiadau am weithgareddau penodol a wnaed gan ddisgyblion yn y gymuned leol, ac adroddiadau am waith y tîm eco-ysgol.  Mae'r pennaeth yn cynnig neges wythnosol i ategu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol, ac yn benodol,  'thema'r wythnos'.  Mae hyn yn atgyfnerthu gwasanaethau rhithwir y pennaeth, a negeseuon a fideos y caplan.  Mae hefyd yn gyfle i annog disgyblion i gefnogi gwaith elusennau penodol a hyrwyddo ystod o weithgareddau i gefnogi iechyd a lles corfforol disgyblion.

**Gwasanaethau rhithwir wythnosol**

Mewn ysgol gynradd annibynnol prif ffrwd fach sydd â nifer o ddisgyblion rhyngwladol, cynhelir y gwasanaeth rhithwir wythnosol yn ddiweddarach yn ystod y diwrnod ysgol i hwyluso presenoldeb disgyblion rhyngwladol yn y Dwyrain Canol. Mae'r pennaeth yn cynnal dosbarth coginio wythnosol hefyd, y mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan ynddo a disgyblion eraill yn ei wylio.

**Negeseuon cryno rheolaidd ar gyfer rhieni**

Mae pennaeth mewn ysgol annibynnol prif ffrwd yn ymweld â phob ystafell ddosbarth rithwir bob dydd i gynnal cysylltiad â disgyblion a rhieni. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i'r pennaeth ymateb i ymholiadau, a chlywed am gynnydd plentyn, ac unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y teulu. Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol yn ymateb i faterion a godwyd. Er enghraifft, wrth ymateb i ymholiadau a godwyd gan rieni am gefnogi gweithio o bell a gweithio ar-lein, mae'r ysgol wedi sefydlu 'clinig wythnosol i rieni'. Mae staff perthnasol yn darparu cyngor ar destunau, er enghraifft i blant iau ar sut i fynd at ddogfennau a lanlwytho gwaith eu plentyn. Bob nos, mae'r ysgol yn anfon manylion at rieni am y gweithgareddau a'r tasgau y bydd eu plentyn yn anelu at eu cwblhau y diwrnod canlynol, fel bod gan rieni ddealltwriaeth glir o'r hyn y bydd eu plentyn yn ei wneud, a chyfle i ymchwilio i'r maes eu hunain, os ydyn nhw eisiau gwneud hynny. Mae'r ysgol wedi rhoi benthyg offer i rieni, fel gliniaduron neu gyfrifiaduron llechen lle mae grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd, a rhoddir cymorth un i un ychwanegol i blant mewn cyd-destunau lle na all rhieni ddarparu hyn, er enghraifft rhieni sy'n weithwyr allweddol neu rieni sengl sy'n ceisio gweithio o gartref.

**Rhoi sicrwydd i'r aelwyd gyfan trwy gyfarfodydd cymunedol dyddiol**

Mae ysgol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ASA, ac anawsterau dysgu cysylltiedig wedi gweithio'n agos gyda staff yn ei chartref ynghlwm i blant, er mwyn galluogi disgyblion i barhau â'u dysgu. Mae athrawon yn darparu gwersi trwy ddefnyddio ystod o adnoddau electronig ac adnoddau papur, ac mae staff y cartref gofal yn cynorthwyo'r disgyblion â'u tasgau. Ceir cyfathrebu rheolaidd rhwng staff addysgu a staff gofal trwy drosglwyddiad dyddiol i drafod yr hyn y mae disgyblion wedi'i wneud, a sut orau i'w cynorthwyo. Cryfhawyd y cyfathrebu hwn ymhellach trwy adleoli cynorthwywyr cymorth dysgu i weithio yn y cartref gofal. O ganlyniad, mae staff preswyl a staff addysg wedi datblygu perthnasoedd gwaith agos. Yn ychwanegol, mae staff a disgyblion yn cael cyfarfod cymunedol bob dydd, sy'n helpu rhoi tawelwch meddwl i'r aelwyd gyfan, yn lleddfu gorbryderon ac yn rhoi cyfle i'r holl aelodau siarad am eu teimladau, a rhannu eu cynnydd.

**Datblygu dealltwriaeth well o'r system gyfathrebu gyflawn a ddefnyddir yn y coleg**

Mae'r cysylltiad agos rhwng staff mewn coleg preswyl arbenigol a rhieni a gofalwyr dysgwyr sydd wedi dychwelyd gartref yn ystod y cyfnod hwn yn helpu datblygu dealltwriaeth well o'r system gyfathrebu gyflawn a ddefnyddir yn y coleg.  O ganlyniad i'r ymdrechion i ddefnyddio'r system gartref, a'r cymorth therapiwtig ar-lein a ddarperir gan staff y coleg, mae dysgwyr yn profi cysondeb gwell o ran y dull.

**Cynorthwyo teuluoedd a staff trwy blatfformau ffrydio byw**

Mae ysgol arbennig annibynnol sy'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol wedi gwneud trefniadau defnyddiol i gefnogi lles ei disgyblion, yn ogystal â hyrwyddo parhad mewn dysgu.  Mae staff yn cynllunio gweithgareddau trwy ddefnyddio ystod o adnoddau electronig ac adnoddau papur, ac yn dosbarthu pecynnau dysgu personoledig i gartrefi disgyblion.  Gosodir tasgau heb bwysau cyfyngiadau amser i'w cwblhau.  Mae'r ysgol wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer dysgu a gweithgareddau ar-lein hefyd.



Mae'r ysgol yn cynorthwyo'i disgyblion, eu teuluoedd a'i staff trwy blatfform ffrydio byw.  Mae'r ysgol yn glynu at ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio ffrydio byw yn ddiogel.  Yn ychwanegol, anfonodd yr ysgol ganllawiau'r NSPCC at ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ar gyfer aros yn ddiogel ar-lein ar ddechrau'r cyfnod clo.

Mae'r ysgol yn darparu amserlen o weithgareddau ar gyfer disgyblion a staff ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.  Cyflwynir pob sesiwn mewn grwpiau tiwtor, ac nid oes mwy na chwech o fyfyrwyr ym mhob un.  Mae gweithgareddau'n cynnwys cyfle i ddisgyblion ddal i fyny â thiwtoriaid, gemau, adrodd storïau a chwisiau.  Os na fydd disgybl yn mynychu sesiwn, mae'r pennaeth yn cysylltu â'r cartref i sicrhau bod popeth yn dda.  Mae'r ysgol yn parhau i fonitro ac olrhain agweddau disgyblion at ddysgu.

Cynhelir cyfarfodydd staff ar-lein ar ddydd Llun.  Mae hyn yn galluogi pob aelod o staff i gadw mewn cysylltiad a chodi pryderon, a mynd i'r afael â nhw.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

53 Mae mwyafrif yr arweinwyr yn adrodd am anghysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran eu dull o gynnal cyfarfodydd i adolygu cynnydd neu ddatganiadau o anghenion

addysgol arbennig neu gynlluniau addysg, iechyd a gofal disgyblion. Er bod rhai ohonynt wedi parhau i gynnal y rhain ar-lein, roedd rhai eraill wedi eu gohirio am gyfnod amhendant, neu hyd nes roedd yn ddiogel mynychu'n bersonol.

## Dysgu ar y safle

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

54 Mae pob un o'r ysgolion a'r colegau y cysylltwyd â nhw yn dweud eu bod wedi gwneud trefniadau i sicrhau parhad mewn dysgu ers cau ysgolion yn gyffredinol. I ysgolion a cholegau sydd ynghlwm â chartrefi plant neu gartrefi preswyl, lle mae'r darparwr yn darparu ar gyfer y disgyblion hyn yn unig, gallai athrawon fod yn parhau i addysgu ar y safle, neu gallent fod yn darparu gwaith i'w gyflwyno gan staff cartrefi gofal, wedi'i ategu gan ffrydio byw. Serch hynny, bu hyd yn oed yn ofynnol i'r darparwyr hyn wneud addasiadau i'w model i roi mesurau iechyd a diogelwch addas ar waith i leihau risg croes-halogi. Yn aml, mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r cwricwlwm, er enghraifft gostyngiad mewn gweithgareddau oddi ar y safle, sydd wedi arwain yn ei dro at gynnydd mewn dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol. Mae ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion o fwy nag un cartref plant (y model 'prif ganolfan a lloerennau') wedi addasu amserlenni ac adolygu trefniadau staffio i leihau cysylltiad cymdeithasol a heintiau posibl.

55 Dywed ychydig o ddarparwyr fod y mesurau a ddefnyddiwyd i alluogi cadw pellter cymdeithasol wedi helpu i hyrwyddo mwy o annibyniaeth mewn dysgu i rai dysgwyr. Ar y cyfan, mae hyn oherwydd y bu'n ofynnol i staff addysgu feddwl am ffyrdd eraill yn lle cymorth corfforol agos un i un i sicrhau bod dysgwyr yn deall y dasg, ac yn parhau i weithio'n ddiwyd, er enghraifft trwy ddefnyddio cliwiau gweledol a gwrthrychau cyfeirio.

56 Arhosodd lleiafrif o ysgolion prif ffrwd ar agor i ddarparu addysg ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar y galw am y gwasanaeth hwn ym mhob lleoliad.

**Gwerth dysgu yn yr awyr agored**

Mae ysgol arbennig annibynnol sy'n addysgu disgyblion sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni sydd ynghlwm â'r ysgol yn gwneud mwy o ddefnydd o amgylchedd helaeth y coetir sy'n amgylchynu'r cartrefi. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cael llawer mwy o amser yn yr awyr agored i ddysgu am y bywyd gwyllt o amgylch eu cartrefi a sut orau i ofalu am yr amgylchedd. Defnyddir y gweithdy coetir ar y safle i alluogi disgyblion i wella eu medrau byw yn y gwyllt a'u dealltwriaeth o offer a pheiriannau i adeiladu cysgodfannau pren. Mae disgyblion wedi dylunio ac adnewyddu gofodau gerddi hefyd, gan gynnwys ailgylchu sinc Belfast a defnyddio casgenni fel planwyr.

Mae disgyblion sy'n rhannu tai yn mwynhau arferion ymarfer corff dyddiol,

fel hyfforddiant cylchol, ac maent yn cystadlu mewn gweithgareddau chwaraeon yn rheolaidd i ddangos eu medrau, gan gynnwys trin pêl.

Mae iechyd meddwl a lles disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd hyn i ddysgu, cadw'n heini a mwynhau'r gofod allanol gyda'i gilydd. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â'u gofalwyr i archwilio'r ardal leol a'r hyn sydd ganddi i'w chynnig. Mae hyn yn cefnogi datblygiad perthnasoedd gwell rhwng y staff a'r disgyblion. Dros gyfnod, mae hyn yn helpu disgyblion i ddysgu ymddiried mewn oedolion, sy'n nodwedd nad oedd wedi bod yn bresennol ym mywydau llawer ohonynt.

**Ysgolion arbennig annibynnol**

Mae ysgol arbennig annibynnol sy'n darparu addysg a therapi ar gyfer disgyblion sy'n byw yn un o'r pum cartref plant sydd ynghlwm â'r ysgol wedi adolygu ei threfniadau amserlennu i alluogi disgyblion i aros yn eu swigod preswyl.

Neilltuodd yr ysgol staff penodol i weithio gyda'r grwpiau o ddisgyblion er mwyn lleihau risg haint bosibl, ac mae disgyblion yn mynd i safle'r ysgol yn unol â rota wythnosol. Mae'r athro Addysg Gorfforol a'r athro addysg awyr agored yn ymweld â phob tŷ bob wythnos ac yn cyflwyno sesiynau ffitrwydd o fewn tir pob tŷ. Mae hyn wedi galluogi staff i gynnal addysgu wyneb yn wyneb gyda grŵp diffiniedig o ddisgyblion o bellter addas.

**Darparu addysg ar draws wyth o gartrefi plant**

Mae'r ysgol yn darparu addysg mewn ystafelloedd dosbarth sydd ynghlwm â phob un o'i 8 cartref plant. Oherwydd y model hwn, mae wedi gallu parhau i ddarparu addysg ar gyfer yr holl ddisgyblion trwy gydol cyfnod y pandemig, gan wneud mân addasiadau i'w gweithdrefnau. Er enghraifft, mae wedi atal y drefn o gylchdroi tiwtoriaid rhwng y gwahanol gartrefi, ac wedi cyfyngu ar fynediad at y gymuned dros dro i leihau risg heintiau Mae staff wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r cwricwlwm hefyd i gynnwys mwy o gyfleoedd i ganolbwyntio ar les disgyblion. Er enghraifft, mae cyfleoedd cynyddol ar gyfer ymarfer corff, dysgu yn yr awyr agored ac ymwybyddiaeth ofalgar. Er mwyn galluogi disgyblion i gynnal cysylltiad cymdeithasol â'u cyfoedion sy'n byw mewn gwahanol dai, mae'r ysgol wedi cyflwyno heriau a chystadlaethau rhithwir rhwng tai, er enghraifft cystadleuaeth dalent a chystadleuaeth bobi rhwng y tai.

**Ad-drefnu amserlen yr ysgol i ddarparu cysondeb a chymorth ar gyfer disgyblion gorbryderus**

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion, gan gynnwys gorbryderon dwys yn seiliedig ar eu profiadau bywyd blaenorol. Mae pob disgybl yn byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae staff wedi aildrefnu amserlen yr ysgol i ddarparu

cysondeb ar gyfer dysgu disgyblion, ac i gefnogi unrhyw orbryderon y gallent fod yn eu harddangos. Yn unol ag arweiniad ar gadw pellter cymdeithasol, mae'r ysgol yn sicrhau nad oes mwy na dau ddisgybl yn ardal y dosbarth ar unrhyw adeg benodol. Mae disgyblion yn cylchdroi rhwng gweithgareddau, gan gynnwys gwersi ar-lein un i un wedi'u harwain gan athrawon mewn ardal ar wahân o'r ysgol, a gweithgareddau yn y dosbarth. Mae'r tîm therapi clinigol yn cefnogi disgyblion trwy gydol yr wythnos trwy ddefnyddio platfform ar-lein. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion wedi parhau i ddysgu, a chânt gyfleoedd i drafod eu pryderon a'u gorbryderon gyda staff a'r tîm therapi clinigol.

**Parlwr hufen iâ a siop ar y safle**



Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol breswyl arbennig annibynnol yn profi amrywiaeth o anghenion cymhleth, gan gynnwys ASA. Mae angen arferion a strwythurau cyson ar bron bob un ohonynt fel amod ar gyfer dysgu'n llwyddiannus. O ganlyniad i'r sefyllfa bresennol, bu'n rhaid i staff yn yr ysgol feddwl am ffyrdd creadigol o gynorthwyo'r disgyblion i barhau â'u medrau byw yn annibynnol a chyfranogi cymunedol. Er enghraifft, maent wedi datblygu parlwr hufen iâ a siop ar y safle. Mae disgyblion yn rhedeg y parlwr hufen iâ a'r siop, ac yn mynd yno i brynu eitemau yn ogystal. Mae disgyblion wedi addasu yn unol â'r newidiadau hyn yn dda, ac maent wedi mwynhau gallu defnyddio'r siop i brynu byrbrydau, yn ogystal â chael trît prynhawn yn y parlwr hufen iâ. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r ysgol i barhau i gefnogi a datblygu medrau byw yn annibynnol disgyblion, er gwaethaf y cyfyngiadau ar fynediad i'r gymuned.

**Ymestyn gweithgareddau ABCh i gryfhau lles disgyblion**

Bu'n rhaid i ysgol arbennig annibynnol sy'n cynnig lleoliadau preswyl a lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac ASA, gyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle yn ystod y pandemig. Nid oes gan yr ysgol dir helaeth, ond mae staff wedi bod yn greadigol yn cynorthwyo'r disgyblion yn ystod y cyfnod hwn trwy ailddynodi ardal yn yr ysgol i agor siop ysgol ar y safle. Gall disgyblion brynu eitemau a rhedeg y siop fel rhan o'u gweithgareddau. O ganlyniad, mae disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol wedi ymestyn ei gweithgareddau ABCh i gryfhau lles disgyblion. Mae sesiynau a gyflwynir yn cynnwys ioga, sesiynau dawns ychwanegol, drama, Zumba, bŵt-camp ac amrywiaeth o weithgareddau cadw'n heini. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddeall y newidiadau maen nhw'n eu profi a rheoli eu teimladau a'u hemosiynau'n well.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

57 Bu'n rhaid i ysgolion a cholegau sy'n addysgu dysgwyr dydd gyfyngu ar nifer y dysgwyr ar y safle ar unrhyw adeg benodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent wedi cytuno ag awdurdodau lleol pa ddysgwyr ddylai barhau i fynychu, ar sail asesiadau risg o'u hanghenion a'u bregusrwydd. Fodd bynnag, yn ôl asesiadau, mae ychydig o'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed yn dangos risg rhy uchel i fynychu, gan fod eu hamgylchiadau personol a'u hamgylchiadau teuluol yn golygu ei bod yn annhebygol eu bod wedi cadw at reolau'r cyfnod clo neu'n arfer pellter cymdeithasol.

58 Mae arweinwyr yn adrodd bod y gostyngiad mewn gweithgareddau oddi ar y safle wedi cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr gaffael ac ymarfer medrau cymdeithasol a medrau annibyniaeth gwerthfawr yn y gymuned, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn chwaraeon tîm, gweithgareddau hamdden, hyfforddiant teithio a phrofiad gwaith. Yn anochel, mae hyn yn effeithio'n negyddol ar eu cynnydd yn unol â'r targedau yn eu CAUau, eu datganiadau a'u cynlluniau addysg, iechyd a gofal. Mae sawl arweinydd yn mynegi pryder am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyfnod pontio dysgwyr, a sut bydd awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn mewn adolygiadau cynnydd yn y dyfodol.

## Dysgu o bell

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

59 Mewn ysgolion annibynnol prif ffrwd, mae arweinwyr yn disgrifio amrywiaeth o ddulliau o weithredu dysgu o bell yn dibynnu ar faint a phroffil oedran ysgolion. Hefyd, mae arweinwyr yn mynegi'r farn fod angen iddynt fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion staff a disgyblion fel ei gilydd. Fe wnaeth ychydig o arweinwyr a ragwelodd y cyfnod clo weithredu'n gynnar i adolygu polisïau, gwella medrau staff a sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer dysgu o bell.

60 Mae'r ymagwedd at yr amserlen ysgol draddodiadol mewn ysgolion prif ffrwd wedi amrywio. Er bod rhai ysgolion wedi ceisio cynnal amserlen arferol, mae ysgolion eraill wedi addasu eu darpariaeth, yn aml ar ôl adborth gan athrawon, rhieni neu ddisgyblion.

61 Pan ddechreuodd ysgolion trwy addysgu amserlen lawn, lleihaodd sawl un ohonynt hyd neu nifer y gwersi yn ddiweddarach. Mewn achosion eraill, cynyddwyd yr amser cysylltiad byw ar gyfer disgyblion iau ar gais rhieni. Caiff baich gwaith ar gyfer staff a disgyblion ei fonitro'n rheolaidd, a gwneir addasiadau pan fydd angen. Bu'n rhaid ymdrin â disgwyliadau rhieni mewn sefyllfa sy'n newydd i bawb.

62 Yn gyffredinol, mae ysgolion prif ffrwd yn dweud eu bod yn parhau i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Yn aml, mae hyn yn cynnwys 'sesiynau ymneilltuo' ar y platfform ar-lein a ddefnyddir gan yr ysgol. Mae ysgolion â disgyblion oedran uwchradd wedi dyfeisio cyrsiau pontio 'cyn Safon

Uwch’ a chyrsiau paratoi ar gyfer y brifysgol i’w disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn y drefn honno.

63 Mae ysgolion a cholegau arbennig annibynnol sy’n addysgu dysgwyr dydd, neu gyfuniad o ddysgwyr dydd a dysgwyr preswyl, wedi datblygu strategaethau sy’n diwallu gwahanol amgylchiadau’r grwpiau hyn o ddysgwyr. Er y gallai hyn gynnwys cyflwyno gwersi neu rannu adnoddau trwy blatfformau ar-lein, nid yw hyn bob amser yn ymarferol oherwydd yr heriau y mae’r disgyblion hyn yn eu hwynebu yn eu dysgu, neu oherwydd eu hamgylchiadau teuluol. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn hwyluso dysgu o bell trwy ddosbarthu ‘copïau caled’ neu becynnau gweithgareddau i gartref y teulu sydd naill ai’n disodli neu’n ategu gweithgareddau ar-lein a gynlluniwyd. Mae arweinwyr yn nodi pan fydd hyn yn llwyddiannus iawn, mae cynllunio’n cynnwys gweithgareddau ymarferol sy’n dilyn y cwricwlwm y mae disgyblion yn ei ddilyn yn yr ysgol, ac sy’n adeiladu’n briodol ar ddatblygu medrau ymarferol ac annibyniaeth.

64 Mae llawer o ysgolion a cholegau arbennig yn siarad yn gadarnhaol am y cyfathrebu estynedig rhwng y darparwr a’r teuluoedd o ganlyniad i’r trefniadau hyn. Mewn llawer o achosion, mae rhieni a gofalwyr wedi ymateb yn gadarnhaol, wedi gwerthfawrogi ymdrechion y darparwr i ddarparu dysgu ac aros mewn cysylltiad, ac wedi gwneud eu gorau i gefnogi dysgu eu plentyn gartref.

65 Mae ychydig o ddarparwyr yn siarad am fanteision annisgwyl dysgu ar-lein i ychydig o ddisgyblion o ran hyrwyddo mwy o annibyniaeth, a hunanddibyniaeth.

**Sicrhau cydbwysedd rhwng amser gwaith a gwyliau**

Er mwyn addasu i’r adborth am ddysgu o bell, mae ysgol fach pob oed yn addysgu mewn slotiau tair wythnos, wedi’u dilyn gan wythnos o wyliau. Mae’n well gan rieni, disgyblion a staff y dull hwn, ac maent yn ei weld yn ‘llai llafurus’.

66 Ailstrwythurodd ychydig o ysgolion eu hamserlen ysgol i leihau hyd neu nifer y gwersi.

**Ailstrwythuro’r amserlen**

Ailstrwythurodd un ysgol ei hamserlen addysgu i ddarparu tair sesiwn 1.5 awr. Mae’r sesiynau hyn yn cynnwys:

- 30 munud o gyflwyniad ffrwd fyw gan yr athro / disgrifio’r amodau / esboniadau / trafodaeth am y gwaith
- 30 munud lle gall disgyblion ofyn cwestiynau / egluro / ceisio cymorth
- 30 munud o ddysgu annibynnol

67 Mae ychydig o ysgolion wedi addasu eu trefniadau cwricwlaidd Mewn ychydig o ysgolion cynradd, mae’r ffocws wedi bod ar Saesneg a mathemateg.

**Diwrnod Sbaenaidd rhithwir**

Mewn un ysgol gynradd, mae pob maes pwnc yn parhau trwy ddysgu o bell, gan gynnwys drama a Sbaeneg, ac mae'r ysgol yn dyfeisio ffyrdd gwahanol a diddorol o gynnal brwdfrydedd a diddordebau disgyblion. Er enghraifft, canslwyd taith arferol Blwyddyn 6 i Sbaen, felly mae'r disgyblion wedi cynnal Diwrnod Sbaenaidd rhithwir. Rhoddir pwyslais ar aros mewn cysylltiad o fewn cymuned yr ysgol. I gefnogi'r dull hwn yn y cwricwlwm, ar ôl hanner tymor, bydd dydd Mercher yn dod yn 'ddiwrnodau testun i ffwrdd o'r cwricwlwm' gyda diwrnodau her ar gyfer pob grŵp her, gan gynnwys diwrnod gyrfaoedd, a fydd yn cynnwys rhieni, a diwrnod adeiladu lle bydd disgyblion yn dylunio gwrthrych fel fflôt ar gyfer carnifal, neu bont.

**Cefnogi a chynnal dysgu ar gyfer disgyblion sy'n cael eu gwarchod gartref**

Mae darparwr ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, sydd â disgyblion dydd a disgyblion preswyl, wedi gwneud trefniadau i gefnogi a chynnal dysgu ar gyfer disgyblion sy'n cael eu gwarchod gartref. Mae'r ysgol yn anfon amserlen o weithgareddau dysgu wythnosol ar gyfer disgyblion sy'n darparu strwythur i'r diwrnod ond nid ydynt yn gyfyngol. Er enghraifft, mae pob diwrnod yn dechrau â chân ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau awgrymedig i ymgysylltu â disgyblion ac ennyn eu diddordeb, heb roi gormod o bwysau ar ddisgyblion a'u rhieni. Yn ychwanegol, gall pob rhiant ymgynghori ar-lein neu dros y ffôn ag adran therapi'r ysgol, gan gynnwys therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi.

Enghreifftiau o weithgareddau ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd:

- Ffocws ar les – creu jar gadarnhaol; ysgrifennu syniad newydd cadarnhaol bob dydd / wythnos
- Gwneud cofnodion wythnosol mewn dyddiadur gan ddefnyddio technoleg llygad-syllu – fy mhrofiad i yn ystod y cyfnod clo
- Ffeiliau ffeithiau ar destunau amrywiol a gwmpaswyd - er enghraifft, creu ffeil ffeithiau anifail ar ôl canolbwyntio ar anifeiliaid mewn perygl
- Ffocws ar fedrau bywyd – gwneud pryd bwyd iach i'ch teulu gan ddefnyddio technoleg llygad-syllu i greu cyfarwyddiadau
- Ffocws ar ddiwrnodau dathlu cenedlaethol – Diwrnod VE

I ddisgyblion ysgol gynradd, mae pob wythnos yn canolbwyntio ar lyfr gyda gweithgareddau wedi'u cymryd o stori, er enghraifft:

- Pos Mwnci - mae gweithgareddau'n cynnwys dysgu'r arwyddion ar gyfer y prif anifeiliaid ac archwilio cymesuredd trwy beintio gloÿnnod byw
- Y Lindysyn Llwglyd Iawn – mae gweithgareddau'n cynnwys gwrando ar y stori a gwneud cebabau ffrwythau; gan ddefnyddio ffrwythau go iawn neu ffrwythau toes chwarae

Awgrymir amser ar gyfer ffisiotherapi ac ymarferion ymestyn yn y gweithgareddau uchod, a dolenni ar-lein at ganeuon a storïau.

**Mwynhau gweithgareddau awyr agored ymarferol gyda chymorth ar-lein**

Pan ddechreuodd y cyfnod clo, roedd ysgol sy'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, newydd addasu ei system technoleg gwybodaeth. Yn sgil cyfres brydlon o ddeialog broffesiynol â'u cydweithwyr, roedd staff yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r her o ddefnyddio eu system a gaffaelwyd yn ddiweddar a'u medrau diweddaraf i gefnogi addysgu.

Buan y gwnaethon nhw ddatblygu gwahanol agweddau ar eu technoleg ar-lein i weddu i anghenion amrywiol ystod oedran eang y disgyblion yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi dysgu y gellir mwynhau hyd yn oed y gweithgareddau awyr agored mwyaf ymarferol trwy ddefnyddio technoleg: dysgodd un aelod o staff fod garddio, gan gynnwys adeiladu pwll ar-lein gyda disgybl, yn syndod o hawdd. Mae ychydig o staff wedi bod yn coginio ac yn pobi cacennau ar-lein gyda disgyblion a'u rhieni. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion a'u teuluoedd i ddysgu mewn ffyrdd newydd a chymhellol.



I ychydig o ddisgyblion, mae'r cyfle i weithio o gartref gan ddefnyddio technoleg wedi eu helpu i sylweddoli y gallai datblygu arbenigedd mewn technoleg wneud eu dewisiadau gyrfa yn y dyfodol yn fwy cyflawnadwy.

Mae rhieni wedi cael eu hannog i weithio ar-lein gyda'u plant, ac mae hyn wedi cynnig cyfleoedd dyddiol i staff ymgysylltu â theuluoedd. Mae her ddyddiol yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd erbyn hyn. Mae'r heriau yn eang ac yn amrywiol, gan gynnwys dilyn cyfarwyddiadau i greu set o beli jyglo o hen sanau a reis, wedyn dilyn cyfarwyddiadau fideo i ddysgu jyglo. I ychydig o rieni yn arbennig, cafodd yr heriau hyn effaith gadarnhaol ar y berthynas rhyngddyn nhw a'u plant.

**Dylunio plannwr gardd**

Fe wnaeth yr ysgol arbennig annibynnol hon sy'n darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion preswyl a disgyblion dydd sicrhau yn gyflym fod pob un o'r disgyblion dydd yn gallu defnyddio offer ar gyfer dysgu ar-lein. Fe wnaethant ddosbarthu dyfeisiau ysgol a llwytho meddalwedd berthnasol arnyn nhw ymlaen llaw. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddysgu ar-lein trwy blatfform a sefydlwyd gan yr ysgol. Rhoddir tasg i ddisgyblion ddylunio

a chyflwyno cynllun ar gyfer plannwr gardd. Wedyn, gwnaeth staff y rhain yn yr ysgol gan ddefnyddio'r argraffydd 3D. Dosbarthwyd y planwyr i'r disgyblion, ynghyd â hadau a phridd, ac maen nhw bellach yn sylfaen i brosiect trawsgwricwlaidd yn ymgorffori Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Defnyddio dull hyblyg o ddiwallu gwahanol anghenion y disgyblion**

Mae'r ysgol arbennig annibynnol hon yn darparu darpariaeth ddydd a darpariaeth breswyl 52 wythnos ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 16 oed sydd ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac ASA. Mae'r ysgol wedi ymateb i'r heriau a ddarperir gan y pandemig trwy fabwysiadu dull hyblyg i ddiwallu gwahanol anghenion ei disgyblion. Mae'n parhau i gynnig addysgu ar y safle i ryw naw disgybl sy'n agored iawn i niwed. Mae disgyblion yn mynychu rhwng 9:00 a 2:00, ac fe gaiff y ddarpariaeth ei theilwra i grwpiau bach o ddisgyblion gyda staff cyson. Mae tîm arall o staff yn cyflwyno gwersi trwy blatfform ar-lein ar gyfer yr holl ddisgyblion eraill, gan gynnwys y rhai sy'n byw yn y cartref plant sydd ynghlwm â'r ysgol.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

68 Mae ysgolion a cholegau arbennig annibynnol sy'n addysgu dysgwyr dydd yn wynebu gwahanol heriau wrth ddarparu gweithgareddau ystyrlon ar gyfer eu dysgwyr, y mae llawer ohonynt, yn sgil natur eu hanghenion addysgol arbennig, yn debygol o'i chael yn fwy heriol ymgymryd â dysgu o bell. Mae llawer o ddisgyblion ysgolion arbennig annibynnol yn benodol yn profi cyfnodau o darfu ar eu haddysg cyn eu lleoliad ysgol, ac nid ydynt yn ystyried eu hunain yn ddysgwyr llwyddiannus. Yn gyffredinol, caiff y disgyblion hyn lai o gyfle i fanteisio ar eu hadnoddau TGCh eu hunain i'w galluogi i ddysgu ar-lein gartref ac, at ei gilydd, efallai nad yw eu hamgylchiadau adref a'u hamgylchiadau teuluol yn agored i ddysgu gartref. O ganlyniad, mae ysgolion yn dweud bod ymgysylltiad y disgyblion hyn â dysgu yn anghyson, ac nid yw llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn gyson â'r gwaith a osodir.

69 Yn ychwanegol, er bod arweinwyr ysgol yn dweud bod gwaith yn cael ei osod ym mhob achos, nid yw'n bosibl gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwaith hwn. Er ei bod yn ymddangos bod mwyafrif yr ysgolion wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer casglu gwaith, ac asesu gwaith a gwblhawyd, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud hynny oherwydd risgiau canfyddedig am halogi. O ganlyniad, mae'n debygol nad yw llawer o ddisgyblion dydd sy'n dysgu o bell yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu.

70 Mae arweinwyr yn dweud mewn ychydig o achosion, mae rhieni a gofalwyr yn amharod i gefnogi dysgu eu plentyn gartref, ac nid oeddent yn gwerthfawrogi ymdrechion yr ysgol neu'r coleg i aros mewn cysylltiad. Hefyd, mae arweinwyr yn sôn am yr anawsterau a oedd yn wynebu llawer o rieni wrth gefnogi addysg eu plant gartref, naill ai oherwydd eu hanawsterau dysgu eu hunain, natur anghenion eu plentyn, neu anhawster wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a gofynion eu gwaith eu hunain.

## Trefniadau i gefnogi cyfnod pontio disgyblion newydd sy'n ymuno â'r ysgol

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

71 Mae llawer o ysgolion a cholegau arbennig annibynnol yn wynebu heriau o ran hwyluso prosesau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â'r ysgol neu'r coleg, ac ar gyfer y rhai sy'n paratoi i adael, yn ogystal. Maent wedi diweddaru eu gweithdrefnau arferol i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr newydd i'r ysgol neu'r coleg. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarfodydd ar-lein i gwblhau asesiadau wyneb yn wyneb, lle mae hyn yn berthnasol i anghenion dysgwyr unigol. Mewn ychydig o achosion, mae darparwyr wedi parhau i dderbyn dysgwyr newydd yn ystod y pandemig. Trwy ddilyn canllawiau iechyd, maent yn cynnal teithiau o amgylch y safle, ac yn cynnal cyfarfodydd â'r teulu a darpar ddysgwyr ar y safle, hyd yn oed pan na fu unrhyw ddysgwyr ar y safle. Mae hyn wedi eu galluogi i gyflwyno staff allweddol a fydd wedyn yn gweithio gyda'r dysgwr o bell yn y lle cyntaf, hyd nes gall yr ysgol ailagor yn llawn.

72 Pan fydd ysgolion ynghlwm â chartrefi preswyl, mae gweithdrefnau ymsefydlu yn yr ysgol wedi digwydd yn unol â'r arfer, ar ôl i'r dysgwr setlo yn y cartref i ddechrau.

**Sicrhau dull pontio graddol**

Mae ysgol, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion ac ymddygiadau cymhleth yn gysylltiedig ag ASA, wedi parhau i dderbyn disgyblion newydd i'w hysgol a'i chartref preswyl ynghlwm ar y safle trwy gydol y cyfnod hwn. Mae'r pennaeth, trwy gydweithio â'r tîm amlddisgyblaethol, awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol, rhieni a disgyblion, wedi defnyddio platfform ar-lein er mwyn gallu parhau â'r holl asesiadau, cyfarfodydd ac ymweliadau rhagflas â'r ysgol. Mae cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau dyddiol rhwng athrawon, disgyblion a rhieni a'r tîm asesu clinigol wedi sicrhau bod trefniadau pontio graddol yn benodol i anghenion unigol pob disgybl ar waith. Mae canlyniad y dull addasedig hwn o dderbyniadau i'r ysgol wedi nodi manteision lleihau amser teithio gweithwyr proffesiynol i wneud gwaith o'r fath. Dywed y pennaeth fod y dull hwn yn debygol o gael ei gadw fel rhan o'r trefniadau pontio parhaus ar gyfer disgyblion i'r ysgol.

**Proses bontio sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch disgyblion**

Mae'r ysgol fach breswyl hon, sy'n cynorthwyo disgyblion ag ystod o heriau ymddygiadol, wedi parhau i dderbyn disgyblion i'r ysgol yn ystod y pandemig. Trwy ddefnyddio dull wedi'i gynllunio'n ofalus yn seiliedig ar anghenion unigol, mae staff preswyl, staff ysgol, a staff clinigol, wedi datblygu proses bontio i alluogi disgyblion i ymuno â'r ddarpariaeth yn ddiogel. Mae gan bob disgybl raglen ymsefydlu safonol lle maent yn sefydlu arferion o fewn sefyllfa'r cartref gofal fel y cam cynlluniedig cyntaf. Mae

asesiadau risg ar waith i ddiogelu disgyblion a staff ar draws y ddarpariaeth. Mae staff gofal ychwanegol yn cefnogi'r cyfnod pontio rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r ysgol wedi nodi meysydd dysgu eraill ym mhrif adeilad yr ysgol i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol, a chefnogi'r broses o'u cyflwyno i'r ysgol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion sydd eisoes wedi ymsefydlu yn yr ysgol i reoli'r newidiadau i'r ddynameg grŵp, gan darfu cyn lleied â phosibl ar eu harferion sydd eisoes wedi'u sefydlu. Caiff disgyblion newydd sesiynau yn yr ysgol yn ystod eu hwythnos gyntaf i ddeall arferion yr ysgol, a datblygu amserlen yn seiliedig ar eu diddordebau a'u hanghenion.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

73 Mae ysgolion a cholegau'n adrodd ei fod yn hynod anodd sicrhau parhad yn y trefniadau i gynorthwyo dysgwyr sy'n paratoi i adael yr ysgol neu'r coleg ar ddiwedd tymor yr haf. Mae hyn oherwydd bod y cynllunio i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr i gyrchfan newydd yn nodweddiadol yn cynnwys cydweithio rhwng sawl unigolyn, ac fe gaiff hyn ei gydlynu gan yr awdurdod lleol fel arfer. Mae'n anodd i ddarparwyr gefnogi'r gwaith hwn pan fydd y dysgwr gartref, ni all ymweld â'i leoliad nesaf a chyfarfod â'r unigolion y bydd yn byw neu'n gweithio gyda nhw, neu pan fydd penderfyniadau am gamau nesaf dysgwyr wedi'u hoedi neu'u gohirio.

74 Mae lleiafrif o arweinwyr yn mynegi pryderon fod trefniadau ar gyfer cynnal adolygiadau o gynnydd dysgwyr ar-lein, a chyfarfodydd eraill i ystyried cyfnod pontio dysgwyr, yn cyfyngu ar y cwmpas ar gyfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r pellter corfforol rhwng y dysgwr a'r staff allweddol yn golygu ei bod yn anodd ystyried ac archwilio dymuniadau'r plentyn a'r teulu yn ddigon agos.

75 Yn yr un modd, nid yw trefniadau ar-lein i gynnal asesiadau wyneb yn wyneb yn ddibynadwy ar gyfer llawer o ddysgwyr ag anghenion cymhleth. Rhaid i ysgolion a cholegau cyrchfan ddibynnu'n helaeth ar wybodaeth a ddarperir gan ysgolion blaenorol dysgwyr, na fydd efallai bob amser yn berthnasol neu'n mynd i'r afael yn llawn â'r hyn y mae angen i staff yn y lleoliad newydd gael gwybod.



## Dysgu proffesiynol

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

76 Mae llawer o ddarparwyr yn dweud eu bod wedi parhau i ddarparu datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn ystod y cyfnod hwn trwy fynediad at hyfforddiant ar-lein. Mae ychydig ohonynt wedi defnyddio'r amser cynyddol sydd ar gael i ddatblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff sy'n cysylltu â blaenoriaethau a nodwyd yn flaenorol ar gyfer datblygu, er enghraifft datblygu'r cwricwlwm neu ddysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu.

77 Dywed llawer o arweinwyr fod pob un o'r staff wedi gwella eu gallu i ddefnyddio TGCh a phlatfformau ar-lein yn sylweddol i gefnogi dysgu. Dywed arweinwyr fod staff yn 'arddel technoleg newydd', 'wedi gwella eu cymwyseddau TGCh' ac wedi 'adnewyddu eu dulliau addysgu.' Hefyd, mae darparwyr wedi elwa ar ddatblygu eu systemau i hwyluso cyfarfodydd ar-lein rhwng staff a rhanddeiliaid allanol. Dywed sawl ysgol fod hyn wedi helpu eu disgyblion i ymgymryd yn hapusach ag adolygiadau blynyddol, gan eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus ac â rheolaeth dros bethau nag y maent mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn amgylchedd caeedig.

**Adolygu'r cwricwlwm**

Mae ysgol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, sydd â disgyblion dydd a disgyblion preswyl, wedi defnyddio dull strategol i sicrhau bod staff addysgu nad ydynt yn mynychu'n bersonol, yn ymgymryd â rhaglen gynllunio a hyfforddi hynod ddefnyddiol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r cyfnod hwn yn bwrpasol i weithio ar ei chwricwlwm, sy'n cael ei ddatblygu yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r athrawon wedi gallu meddwl yn ofalus a chynllunio gyda'i gilydd wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn deilwredig ac yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau ar gyfer disgyblion sy'n gweithio ar gam 1 cyn dilyniant. Yn ychwanegol, mae staff yn defnyddio'r amser hwn i gwblhau datblygiad proffesiynol perthnasol ar-lein, er enghraifft hyfforddiant diogelu a hylendid bwyd.

**Cynorthwyo disgyblion sydd ag ymddygiadau hynod heriol trwy ddadansoddiad ymddygiadol cymhwysol**

Mae ysgol arbennig annibynnol, sy'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth, sy'n cynnwys anawsterau cyfathrebu yn gysylltiedig ag ASA, wedi treulio amser ychwanegol yn hyfforddi staff yn ystod y cyfnod clo. Mae arweinwyr yn credu bod defnyddio dadansoddiad ymddygiadol cymhwysol yn gyson yn ffordd effeithiol o gynorthwyo disgyblion sydd ag ymddygiadau hynod heriol i wneud cynnydd.

Mae niferoedd llai o ddisgyblion ar y safle wedi galluogi'r ysgol i ddarparu diwrnod astudio wythnosol a chyfarfodydd grŵp astudio digidol rheolaidd ar

gyfer staff.  O ganlyniad i'r hyfforddiant ychwanegol hwn, mae pob un o'r staff wedi gwneud cynnydd tuag at ennill y wobr technegydd ymddygiad cofrestredig mewn dadansoddiad ymddygiadol cymhwysol.  Mae hyn yn golygu bod pob un o'r staff yn yr ysgol bellach yn deall technegau penodol i gefnogi, rheoli a monitro ymddygiad disgyblion.  Erbyn hyn, maen nhw wedi eu paratoi'n well i ddarparu'r dull cyson a gynlluniwyd gan arweinwyr.

**Cryfhau'r set medrau ar gyfer y cynorthwywyr cymorth dysgu**

Mae ysgol sy'n cynnig darpariaeth breswyl a darpariaeth ddydd ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac ASA wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddatblygu rhaglen dysgu proffesiynol i gryfhau'r set medrau ar gyfer y cynorthwywyr cymorth dysgu.  Mae staff addysgu newydd sydd wedi ymuno â'r ysgol yn ddiweddar wedi gallu manteisio ar raglen ymsefydlu a chymorth estynedig hefyd.  Mae cynorthwywyr cymorth dysgu wedi cael mewnbwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, eu diddordebau personol eu hunain, ac anghenion y disgyblion yn yr ysgol.  Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant mewn anghenion addysgol arbennig, ADHD, ac ASA, i gefnogi eu dealltwriaeth a'u rolau yn llawnach.  Mae nifer fach o gynorthwywyr cymorth dysgu wedi datblygu canolfan adnoddau ar y safle fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

78 Mae'r diffyg porth dysgu ar-lein wedi creu anawsterau cychwynnol i ychydig o ysgolion.  Bu'n rhaid mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth y staff am addysgeg dysgu o bell, yn enwedig sicrhau bod anghenion penodol pob plentyn yn cael eu diwallu.  Bu'n rhaid i staff addasu ffyrdd newydd o ddarparu adborth ac asesu cynnydd disgyblion.

## Adeiladu cymunedol

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

79 Mae llawer o ysgolion annibynnol prif ffrwd wedi ymgymryd â phrosiectau cymunedol, er enghraifft darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer busnesau lleol.

80 Mae llawer o ysgolion annibynnol prif ffrwd yn dweud eu bod wedi cynnal ysbryd cymunedol trwy wasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau tai, heriau hwyliog ar gyfer disgyblion, a thrwy barhau â gwobrau wythnosol.  Mewn ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion preswyl annibynnol prif ffrwd, mae gweithgareddau allgyrsiol wedi parhau ar-lein i gadw'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yr ysgol, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd wedi dychwelyd i'w cartrefi dramor.

**Ennyn diddordeb disgyblion mewn teithiau maes rhithwir**

Mae ystod y gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn cynnwys sesiynau ffitrwydd ar-lein, clwb garddio a chlwb ffotograffiaeth. Mae un ysgol annibynnol prif ffrwd pob oed wedi defnyddio adnoddau ar-lein i ennyn diddordeb disgyblion mewn teithiau maes rhithwir.

**Paratoi ar gyfer profiad gwersylla rhithwir, a'i gwblhau**

Mae ysgol annibynnol prif ffrwd ar gyfer disgyblion 9-18 oed wedi addasu ei dysgu trwy'r rhaglen awyr agored i gynnwys sesiynau lle mae disgyblion yn paratoi ar gyfer profiad gwersylla rhithwir, a'i gwblhau. Mae hyn yn cynnwys paratoi bwydlen, pacio sach deithio rithwir neu un go iawn, penderfynu ble i osod y babell, a'r rhesymau pam, gyda ffotograffau o amgylchedd y disgyblion eu hunain i ddangos tystiolaeth a rhannu a thrafod gyda disgyblion eraill. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweminar hefyd, gyda siaradwr cymhellol sydd wedi siarad mewn diwrnod areithio yn yr ysgol yn y gorffennol. Siaradodd y cyn-ddisgybl â chymuned lawn yr ysgol am addasu yn unol â'r 'sefyllfa normal newydd' mewn addysg, a phwysigrwydd dangos gwydnwch a'r gallu i addasu yn unol â gwahanol heriau. Mae'r pennaeth o'r farn bod disgyblion wedi ymgymryd â'r rhaglen ar-lein yn frwdfrydig.

## Cynllunio ar gyfer dychwelyd i addysg ar y safle i'r holl ddysgwyr

### Sut mae ysgolion wedi addasu eu harfer

81 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion a cholegau arbennig wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod clo, er bod hynny ar gyfer llai o ddisgyblion. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i arweinwyr ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o dan y cyfyngiadau presennol, ac mae angen iddyn nhw fireinio ac addasu i ddarparu ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn llawn.

82 Mae pob ysgol a choleg yn ystyried yn ofalus yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd. Maent yn asesu'r addasiadau y mae angen eu gwneud i'r amgylchedd ffisegol a pha fesurau iechyd a diogelwch sydd eu hangen i atal heintiau rhag lledaenu, yn enwedig lle mae gan ddysgwyr gyflyrau iechyd isorweddol sy'n eu gwneud yn agored iawn i ddal y clefyd. Bron ym mhob achos, caiff yr ystyriaethau hyn effaith ar yr hyn y gellir ei addysgu, a sut mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn adolygu'r modd y gall eu cwricwlwm a'u model cyflwyno presennol ddarparu ar gyfer mesurau rheoli haint estynedig. Mae cyfathrebu â rhieni a sicrhau hyder rhieni ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol yn allweddol.

83 Pan fu canlyniadau cadarnhaol annisgwyl o'u harfer bresennol, er enghraifft wrth ddefnyddio TGCh i gefnogi dysgu neu fanteision caniatáu i staff weithio o gartref,

mae darparwyr yn ystyried sut gellir ymgorffori'r rhain yn eu harfer yn y dyfodol i gadw'r manteision hyn.

**Fideo i groesawu eu disgyblion yn ôl i'r ysgol**

Mae llawer o ysgolion annibynnol prif ffrwd wedi recordio fideo i groesawu eu disgyblion yn ôl i'r ysgol. Mae'r ffilmiau'n dangos i'r disgyblion a'r rhieni beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Maent yn cynnwys manylion am fannau gollwng, 'swigod', cynllun ystafelloedd dosbarth a threfniadau glanhau. Mae ysgol gynradd annibynnol prif ffrwd arall yn cwblhau 'recriwtio rhithwir', gan gynnwys defnyddio negeseuon fideo gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn sôn am eu hoff adegau.

**Dosbarthu pecynnau addysg i'r tai preswyl ar gyfer mwyafrif y dysgwyr preswyl sydd wedi aros ar y safle**

Mae coleg arbenigol sy'n darparu lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau corfforol ac ASA, wedi parhau i ddarparu addysg ar gyfer ei ddysgwyr, naill ai ar y safle, neu o bell. Mae tiwtoriaid yn dosbarthu pecynnau addysg i'r tai preswyl ar gyfer mwyafrif y dysgwyr preswyl sydd wedi aros ar y safle, neu'n sicrhau bod y rhain yn cael eu postio i dai'r dysgwyr hynny sy'n dysgu o bell. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddysgwyr dydd yn mynychu ar y safle lle nodwyd bod hyn yn flaenoriaeth gan weithwyr cymdeithasol dysgwyr unigol.

Wrth i'r pandemig ddatblygu, mae'r coleg wedi bod yn cysylltu â gweithwyr cymdeithasol i gynllunio ar gyfer yr adeg y bydd dysgwyr yn dychwelyd i gael addysg ar y safle, a pha gymorth ychwanegol fydd ei angen i'w galluogi i ailintegreiddio i'r coleg yn llwyddiannus. Fel rhan o hyn, mae arweinwyr yn ystyried pa fodelau staffio fydd eu hangen, ac yn ail-ddynodi ardaloedd addysgu presennol ar gyfer cyfuniadau staff / dysgwyr penodol i leihau cysylltiad diangen a sut i osod terfynau ardaloedd addysgu i alluogi pawb i gadw pellter cymdeithasol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.



Yn ychwanegol, mae'r coleg yn edrych ar ba agweddau ar yr arfer bresennol fydd yn cael eu cadw fel rhan o'i fodel darpariaeth yn y dyfodol, er enghraifft cynnal y trefniant lle neilltuir tiwtoriaid i dai preswyl, yn ogystal â chael eu grŵp tiwtorial eu hunain ar y safle. Hefyd, mae'r coleg yn ystyried sut y gall barhau i ddefnyddio sesiynau tiwtorial ar-lein ar gyfer y rhai sy'n gallu mynd at y rhain, oherwydd gwelwyd eu bod yn cefnogi annibyniaeth rhai dysgwyr, ac ar gyfer datblygu a hyfforddi staff, yn ogystal â pha mor effeithiol y gall gweithio o gartref fod i staff.

**Ailgyflwyno disgyblion i weithgareddau cymunedol**

Mae ystod anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol arbennig breswyl hon, yn cynnwys lefelau uchel o orbryder a bregusrwydd uchel y disgyblion, yn golygu bod staff yn ystyriol o'r effaith y mae tynnu mynediad i'r gymuned yn ôl yn ei chael ar yr holl ddisgyblion. Ffocws gwaith allweddol y staff mewn cyfnod arferol yw cynorthwyo'r disgyblion i gymryd rhan yn y gymuned yn ddiogel. Mae staff yr ysgol, staff preswyl a staff clinigol yn cynllunio model adfer a fydd yn ailgyflwyno disgyblion i weithgareddau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod pontio graddol i weithgareddau allweddol gydag asesiadau risg estynedig ar waith, yr angen i drafod gyda phob un o'r disgyblion beth yw eu pryderon ynghylch ailymgysylltu â'r gymuned, a senarios y gallent eu hwynebu pan gaiff y cyfyngiadau clo eu codi. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cynyddol i drafod eu gorbryderon ynglŷn â'r mater hwn a'r camau y gallant eu cymryd i'w lleddfu.

### Heriau a nodwyd gan arweinwyr

84 Yn yr un modd â llawer o ddarparwyr, mae ysgolion a cholegau wedi'i gweld yn her barhaus rhoi sicrwydd i staff, rhieni a dysgwyr am gynlluniau yn y dyfodol tra byddan nhw'n ansicr ynghylch pryd a sut bydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd i ddysgu ar y safle. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion a cholegau yn gweithio gyda dysgwyr unigol ag anghenion penodol iawn, a bu'n rhaid i arweinwyr ddysgu sut i ddehongli a chymhwyso arweiniad yn yr amgylchiadau penodol iawn hyn.

85 Mae pryderon logistaidd yn cynnwys yr heriau yn gysylltiedig â chludiant i'r ysgol, ymarferoldeb adeilad yr ysgol, problemau ar gyfer tai preswyl, a disgyblion rhyngwladol yn dychwelyd.

86 Mae pryderon ynghylch lles yn cynnwys cydnabod angen posibl am gwnsela yn sgil 'profedigaeth'. Hefyd, mae ysgolion yn rhagweld effaith benodol y cyfnod clo o ran plant 'unig'. Nododd un ysgol eu bod eisoes wedi sylwi bod plant heb unrhyw frawd na chwaer yn ei chael yn anos ymdopi â'r cyfnod clo. Mae ychydig o ysgolion yn chwilio am arweiniad ynglŷn â'r hyn y dylid cadw golwg amdano pan fydd disgyblion yn dychwelyd, a sut i gefnogi lles disgyblion.

87 O ran dysgu o bell, mae prif bryderon ysgolion yn ymwneud ag anhawster gweithredu economi gymysg mewn dysgu yn yr ysgol a dysgu ar-lein. Yn dibynnu pryd y gall ysgolion ailagor, roedd ysgol yn ystyried rhoi eu disgyblion oedran cynradd yn eu dosbarth presennol ym mis Medi i sefydlu cyfnod o 'normalrwydd' cyn eu symud i'r dosbarth nesaf.